# Costau isadeiledd

EBRILL 2010

Dŵr Cymru
Welsh Water

www.dwrcymru.com

PAB0014

## Rhagair

**Pan ofynnir am gyflenwad ar gyfer adeilad newydd neu un wedi'i addasu, mae'n rhaid i Dŵr Cymru godi toll oherwydd bod angen gwella cynhwysedd y rhwydweithiau dŵr a charthffosydd.**

**Y doll yw'r costau seilwaith a godir i dalu am y gwaith ychwanegol yma ar y rhwydwaith. Mae'r costau'n gymwys ar gyfer pob cysylltiad dwˆr a charthffosiaeth at ddibenion preswyl a dibreswyl ac maent yn ychwanegol i'n prisiau am drefnu cysylltiad dwˆr neu garthffosiaeth. Maent hefyd ar ben ein costau am ymestyn y system mewn ymateb i gais gan gwsmer.**
**Y datblygwr sy'n gyfrifol am dalu am osod prif bibellau dwˆr a charthffosydd, gorsafoedd pwmpio, tanciau ac unrhyw waith lleol sy'n deillio'n uniongyrchol o osod prif bibellau dwˆr neu garthffosydd newydd ar y safle.**

**Mae'r daflen hon yn cynnwys esboniadau cyffredinol. Nid yw'n ddisgrifiad cyfreithiol manwl o'r costau. Cysylltwch â'ch swyddfa leol os yn ansicr neu am gael mwy o wybodaeth.**

## Diffiniadau

**'Deddf'** Deddf Diwydiant Dŵr 1991 a gwelliannau ers hynny.

Y **'Cwmni'** Dŵr Cymru Cyfyngedig

**'Cysylltiad'** y cysylltiad, a reoleiddir gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol, sy'n cyflenwi gwasanaethau'r Cwmni i'r cwsmer.

**'Tŷ'** unrhyw adeilad neu ran o adeilad a ddefnyddir fel cartref neu, os yn wag sy'n debygol o gael ei ddefnyddio felly, ac o ganlyniad, sy'n cynnwys fflatiau; ond nid adeiladau a gynhelir at ddibenion llety nifer o bobl yn rhannu adnoddau, neu fel hostel gwyliau/myfyrwyr neu lety rhent neu dymor byr arall.

**'Costau isadeiledd'** costau isadeiledd dŵr neu garthffosiaeth.

**'Adeilad'** unrhyw adeilad, y tir o'i amgylch, hawliau perthynol neu unrhyw le ble darperir cyflenwad dŵr. Mae adeilad yn cynnwys tŷ, rhan o adeilad y gellir ei ddefnyddio fel llety ar wahân, adeilad dros dro sy'n rhoi lloches, adeilad wedi'i rannol adeiladu neu ddymchwel, carafán neu gartref symudol ar safle parhaol.

**'Ailddatblygiad'** safle ble newidir y cysylltiadau neu'r defnydd ohonynt. Mae ailddatblygiad yn cynnwys, er enghraifft, cyfnewid hen dai am rai newydd, troi tŷ mawr yn fflatiau, addasu ffatri yn swyddfeydd, ymestyn ffatri neu swyddfeydd, a newid cyflenwad dŵr adeiladu i gyflenwad preswyl.

**'Pibell wasanaeth'** pibell (neu ran o'r bibell) i gyflenwi dŵr o brif bibell ddŵr y Cwmni i unrhyw adeilad yn ôl diffiniad adran 219 o'r Ddeddf.

**'Pibell gyflenwi'** unrhyw ran o bibell wasanaeth, nad yw'n ofynnol i'r Cwmni osod o dan adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

**'Cyflenwad at ddibenion preswyl'** yn gyffredinol cyflenwad at ddibenion yfed, golchi, coginio, gwres canolog a glanweithdra yn ôl diffiniad adran 218 o'r Ddeddf.

**'Cyflenwad at ddibenion dibreswyl'** cyflenwad at unrhyw ddefnydd ac eithrio dibenion preswyl; er enghraifft, cyflenwadau at ddibenion gweithgynhyrchu, i safleoedd adeiladu ac i gafnau meysydd.

## Dibenion preswyl a dibreswyl

Mae'r costau am gyflenwad preswyl yn daladwy o dan adran 146 o'r Ddeddf ac Amod C (diwygiedig), Offeryn Apwyntiad y Cwmni. Seilir y costau ar y prisiau safonol a bennir gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) wedi'u lluosi â'r lluosydd perthnasol (gweler yr adrannau 'Costau safonol' a 'Lluosyddion cysylltiadau preswyl'). Codir yr un costau safonol am gysylltiadau dŵr a charthffosiaeth ond mae'r lluosydd perthnasol yn amrywio yn dibynnu ar gategori a maint y cysylltiad.

Codir y costau am gyflenwad dibreswyl o dan amodau adrannau 55, 56 ac 121 o'r Ddeddf ac maent yn seiliedig ar y prisiau safonol a bennir gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dŵr wedi'u lluosi â'r lluosydd perthnasol (gweler yr adrannau 'Costau safonol' a 'Lluosyddion cysylltiadau preswyl').

## Cyfrifoldeb am dalu costau isadeiledd

Mae'r costau'n gymwys ar gyfer pob cysylltiad dŵr a charthffosiaeth newydd at ddibenion preswyl neu ddibreswyl ac yn daladwy gan y person sy'n gofyn am y cysylltiad.

Gall y costau hefyd fod yn daladwy pan ailddatblygir safle, yn cynnwys gwaith cadwraethol ar adeilad neu adeiladau ar y safle a bod yr ailddatblygiad yn arwain at alw uwch o'r safle nag yn y 5 blynedd blaenorol.

Maent yn ychwanegol i'r costau am drefnu neu arolygu cysylltiad dŵr neu garthffosiaeth. Maent hefyd ar ben unrhyw gostau'n gysylltiedig ag ymestyn system drwy gais neu ei mabwysiadu.

## Dulliau talu

Fel arfer bydd costau isadeiledd dŵr a charthffosiaeth yn daladwy pan gysylltir y cyflenwad. Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd y Cwmni'n gofyn am daliad cyn trefnu cysylltiad.

Os dymunir cysylltiad carthffosiaeth yn unig, yna bydd y taliad carthffosiaeth yn daladwy cyn cysylltu â'r system garthffosiaeth.

Pan fydd cysylltiad yn gwasanaethu nifer o dai o fewn adeilad, bydd angen talu'r costau am hyd at wyth tŷ pan gysylltir y gwasanaeth oni bai fod y Cwmni'n gofyn am daliad cynharach. Yn achos mwy nag wyth tŷ, gall y datblygwr wneud cytundeb i dalu'r costau am bob tŷ ychwanegol cyn y gwneir yr archwiliad is-ddeddfau lleol terfynol.

## Cyfrif costau

Y costau isadeiledd yw'r taliad dŵr neu garthffosiaeth safonol wedi'i luosi â'r lluosydd perthnasol (mwy o fanylion yn yr adrannau ar gostau safonol a'r lluosyddion perthnasol).

Ond mae dau eithriad, sef.

- pennir y pris am gysylltiadau dibreswyl sy'n galw am fesurydd o faint enwol uwch na 200mm trwy gytundeb.
- pan fydd datblygiad dibreswyl yn gosod galw eithriadol ar isadeiledd y Cwmni, pennir y costau trwy gytundeb ar sail costau'r buddsoddiad.

Pan fydd safle wedi'i ailddatblygu a chysylltiadau'n bodoli ar y safle o fewn pum mlynedd o ddechrau'r ailddatblygiad, fe ostyngir y cyfanswm costau isadeiledd am y safle. Tynnir uchafswm nifer yr adeiladau ar y safle yn y pum mlynedd blaenorol o gyfanswm y lluosyddion perthnasol am y cysylltiadau sy'n deillio o'r ailddatblygiad. Bydd y cyfanswm newydd, wedi'i luosi â'r costau safonol, yn rhoi cyfanswm costau isadeiledd y safle.

Gwneir gostyngiad tebyg ar gostau isadeiledd carthffosiaeth mewn cysylltiad ag adeiladau gyda chysylltiadau carthffosiaeth oedd ar y safle o'r blaen.

## Ad-daliad cysylltiadau dros dro

Os datgysylltir y gwasanaeth o fewn dwy flynedd o'i osod ac ni threfnir unrhyw gysylltiadau pellach â'r safle, yna fe ad-delir 80% o'r gost.

## Costau safonol

Nodir y costau safonol am bob cysylltiad dŵr a charthffosiaeth yn ein cyhoeddiad 'Cynllun Prisiau'. Gallwch gael copi wrth alw ein llinell gyhoeddiadau **0800 052 0138** neu wrth ymweld â **www.dwrcymru.com/publications/**

Nid yw costau isadeiledd yn destun TAW.

## Lluosyddion cysylltiadau preswyl

Pennir y lluosydd perthnasol ar gyfer cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth ar sail categori'r cysylltiad.

## Adeiladau gyda phibell gyflenwi diamedr allanol dros 25mm

Categori ar gyfer adeiladau nad ydynt yn cynnwys tŷ neu dai ac sy'n derbyn dŵr trwy bibell gyflenwi MDPE gyda diamedr allanol dros 25mm (dim ond gwestai, safleoedd carafannau, swyddfeydd mawr, ysbytai, siopau adrannol a ffatrïoedd gydag adnoddau toiled a chantîn sydd yn y categori hwn).

Os am gyfrif y lluosydd perthnasol, agregwch unedau llwytho holl ffitiadau dŵr yr adeilad a rhannu'r swm â 24. Y lluosydd perthnasol fydd y rhif hwnnw neu 1 (p'un bynnag yw'r uchaf).

## Adeiladau gyda chysylltiad carthffosiaeth yn unig a dim ffitiadau dŵr

Y lluosydd perthnasol yw 1.

## Adeiladau eraill

Y lluosydd perthnasol yw 1.

## Lluosyddion cysylltiadau dibreswyl

Categori ar gyfer cysylltiadau sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl at ddibenion dibreswyl (ee cysylltiadau ar gyfer safleoedd adeiladu, cafnau maes a ffatrïoedd gwasanaethau gweithgynhyrchu).

Pennir y lluosydd perthnasol ar sail cynhwysedd y cyflenwad.

| Cysylltiad (mm) | Lluosydd perthnasol |
|---|---|
| hyd at 22 | 1 |
| 25 | 4 |
| 30 | 6 |
| 40 | 9 |
| 50 | 16 |
| 65 | 25 |
| 80 | 36 |
| 100 | 64 |
| 150 | 144 |
| 200 | 256 |

Os bydd cost darparu'r isadeiledd angenrheidiol fwy na dwywaith yn uwch na'r costau isadeiledd a gyfrifwyd wrth ddefnyddio'r tabl isod yna fe bennir y swm trwy gytundeb arbennig yn seiliedig ar wir gost y gwaith.

Yn achos cysylltiadau dros 200mm, pennir y costau isadeiledd trwy gytundeb arbennig ac ni fyddant yn llai na'r costau am gysylltu pibell 200mm.

Pennir unedau llwytho wrth gyfeirio at y tabl a'r nodiadau dilynol:

| Ffitiad dŵr[1] | Unedau Llwytho |
|---|---|
| Seston WC | 2 |
| Basn ymolchi mewn tŷ | 1.5 |
| Basn ymolchi rhywle arall | 3 |
| Bath â thapiau enwol 20mm[2] | 10 |
| Bath â thapiau mwy na 20mm[2] | 22 |
| Cawod | 3 |
| Sinc â thapiau enwol 15mm | 3 |
| Sinc â thapiau mwy na 15mm | 5 |
| Tap chwistrelli | 0.5 |
| Bidet | 1.5 |
| Offer preswyl (amodol ar isafswm o chwe uned llwytho per tŷ)[3,4] | 3 |
| Offer comunol neu fasnachol[5] | 10 |
| Unrhyw ffitiad dŵr neu allfa arall (yn cynnwys tap ond nid troethle neu feddalwr dŵr) | 3 |

## Nodiadau:

1. Ffitiad yn cynnwys unrhyw waith plymio, allfa, gofod neu gynllunio, neu ddarpariaeth arall ar gyfer y ffitiad hwnnw.
2. 'Bath' yn cynnwys bath trobwll a jacuzzi.
3. 'Offer preswyl' - offer (yn cynnwys golchwr llestri, peiriant golchi ac uned gwaredu gwastraff) mewn tŷ.
4. 'Offer comunol neu fasnachol' - offer (yn cynnwys golchwr llestri, peiriant golchi ac uned gwaredu gwastraff) mewn man arall nad yw'n dŷ (yn cynnwys adnoddau comunol).

## Cymrodedd

Os bydd unrhyw anghydfod rhwng y Cwmni a'r person sy'n gyfrifol am dalu costau isadeiledd ynglŷn â chyfrif y lluosydd perthnasol, neu nifer neu'r math o ffitiadau y seiliwyd y cyfrifiad arnynt, gellir ei gyfeirio gan unrhyw barti i'w bennu gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dŵr. Gellir ychwanegu llog ar gyfraddau cyfredol at unrhyw gostau sy'n dal yn ddyledus ar ôl cysylltu'r gwasanaeth.

## Apeliadau

Os yn anfodlon â'n triniaeth o'r mater, cyfeiriwch eich cwyn at:

Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid
Dŵr Cymru
Blwch Post 690
Caerdydd
CF3 9WL

Ffôn: **0800 052 0130**

Os yn dal yn anfodlon, gallwch gyfeirio'r cwyn at:

Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Cymru
Ystafell 130 Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place
Caerdydd
CF1 3BE

Ffôn: **08457 078267**

Gwefan: **www.ccwater.org.uk**